

## Cynnwys

Beth yw diben yr ymgynghoriad? .....	2
Beth yw'r amserlen ymgynghori? .....	2
Sut i ymateb i'r ymgynghoriad.....	2
Yr hyn sy'n digwydd nesaf.....	2
Pa feysydd sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad? .... Error! Bookmark not defined.	
Pam mae angen cyfundrefn newydd?.....	3
Beth am domenni nad ydynt yn domenni glo? .....	3
Beth yw rôl Awdurdod Goruchwylio? .....	4
Pam mae angen cofrestr asedau? .....	4
Pwy fydd yn cael gweld y gofrestr asedau? .....	5
Beth yw'r gofrestr o weithwyr proffesiynol? .....	5
Beth yw asesiad peryglon?.....	5
Pam mae angen categorïau newydd? .....	6
Beth yw clwstwr o domenni? .....	6
Beth sydd wedi'i gynnwys mewn cynlluniau rheoli?..... Error! Bookmark not defined.	
Pa mor aml fydd tomenni'n cael eu harchwilio? .....	7
Pwy sy'n gyfrifol am archwiliadau/arfarniadau? .....	8
A fydd yn ofynnol i berchnogion gynnal a chadw eu tomenni? .....	8
Beth yw cytundeb cynnal a chadw?.....	8
Beth yw gorchymyn cynnal a chadw tomen?.....	9
Beth yw'r mesurau gorfodi? .....	9
Beth yw adroddiad Comisiwn y Gyfraith? .....	10
A yw'r ymgynghoriad hwn yn cytuno â'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith? .....	11
Beth mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud gyda thomenni glo hyd yma? .....	12
Faint o domenni glo nas defnyddir sydd yna a beth yw eu categorïau? .....	12
Pryd fyddwch chi'n nodi lleoliad tomenni? .....	12
Beth yw'r Treialon Technoleg? .....	13

Sut mae'r gwaith presennol ar domenni glo yn cael ei ariannu? ..... 13

A ydych yn cynnig cael gwared ar yr holl domenni nas defnyddir?.....14

## BETH YW DIBEN YR YMGYNGHORIAD?

Diben yr ymgynghoriad yw darparu cynigion ar gyfer cyflwyno cyfundrefn statudol newydd i sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu rheoli'n effeithiol. Nod y cynigion hyn yw mynd i'r afael â'r bylchau niferus sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Mae barn rhanddeiliaid a chymunedau yn bwysig iawn i'n helpu i gynllunio'r gyfundrefn newydd a sicrhau ei bod yn addas i'r diben.

## BETH YW'R AMSERLEN YMGYNGHORI?

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos o 12 Mai tan 4 Awst.

## SUT I YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol::

- Ar-lein yn <https://llyw.cymru/papur-gwyn-ar-ddiogelwch-tomenni-glo-cymru?>
- Ysgrifennwch atom:  
Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)  
Yr Is-adran Dŵr, Llifogydd a Diogelwch Tomenni Glo  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Neu os oes angen fersiwn print bras neu Braille arnoch, e-bostiwch [YmgynghoriadDiogelwchTomenniGlo@llyw.cymru](mailto:YmgynghoriadDiogelwchTomenniGlo@llyw.cymru)

## YR HYN SY'N DIGWYDD NESAF

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd adroddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi maes o law ar dudalen we'r ymgynghoriad.

Bydd yr ymatebion yn ein cynorthwyo i ddatblygu ein cynigion ymhellach, a fydd yn helpu i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w chyflwyno yn ystod y Senedd hon.

## PA FEYSYDD SYDD WEDI’U CYNWYS YN YR YMGYNGHORIAD?

Mae'r ymgynghoriad yn dechnegol o ran ei natur ac mae'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Sefydlu corff cyhoeddus newydd i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn reoli newydd – cyfeirir ato yn y Papur Gwyn fel ‘awdurdod goruchwylio’
- Llunio a chynnal a chadw cofrestr asedau newydd
- Asesu'r Peryglon ar gyfer yr holl domenni glo nas defnyddir
- Categoriâu newydd ar gyfer yr holl domenni glo nas defnyddir
- Cyflwyno cynlluniau rheoli cymesur ar gyfer yr holl domenni
- Archwilio ac Arfarnu tomenni gan ddilyn amserlen a bennir yn ôl categori'r domen
- Gwaith Cynnal a Chadw a Chytundebau Cynnal a Chadw ar gyfer tomenni
- Hawliau Mynediad ar gyfer archwiliadau, gwaith cynnal a chadw a gwiriadau cydymffurfio
- Cyflwyno sancsiynau sifil am beidio â chydymffurfio â'r gyfundrefn
- Gweithgareddau ar Domenni Glo nas Defnyddir

## PAM MAE ANGEN CYFUNDREFN NEWYDD?

Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol, sef Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 yn darparu unrhyw ofynion gorfodol ar berchnogion i archwilio a chynnal a chadw unrhyw domenni nas defnyddir ar eu tir.

Ni fu unrhyw ofyniad mewn deddfwriaeth i ddarparu categorïau cyson i domenni, sydd wedi golygu bod dulliau categoreiddio gwahanol wedi'u mabwysiadu. Mabwysiadwyd dulliau gwahanol o gynnal archwiliadau hefyd, sy'n golygu y gall fod yn anodd cael trosolwg clir a chyson o statws tomenni glo nas defnyddir.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Tasglu wedi bod yn defnyddio categorïau interim i helpu i sicrhau cysondeb. Mae'r Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol bellach yn defnyddio templedi archwilio safonol i archwilio tomenni sy'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion o ran cysondeb.

Mae angen deddfwriaeth newydd i sicrhau bod tomenni glo yn cael eu rheoli'n effeithiol a mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol.

## BETH AM DOMENNI NAD YDYNT YN DOMENNI GLO?

Y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymdrin â thomenni yw Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni). Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon, sy'n ymdrin â thomenni nas defnyddir, yn berthnasol i bob tomen sborion ac nid dim ond tomenni glo.

Er bod adolygiad Comisiwn y Gyfraith yn canolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir yn unig, rydym yn cydnabod y gallai fod angen cymhwyso unrhyw gyfundrefn newydd i bob tomen sborion nas defnyddir.

Mae angen casglu tystiolaeth yn fanwl ond rydym yn amcangyfrif y gallai fod dros 20,000 o dwmpathau sborion nad ydynt yn domenni glo yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi cyn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir, mae'r Papur Gwyn yn canolbwyntio ar y tomenni hyn. Ond mae'n cyflwyno dull gweithredu lle gellid ychwanegu tomenni sborion eraill at y gyfundrefn pan fydd yr wybodaeth angenrheidiol ar gael yn y dyfodol.

## **BETH YW RÔL AWDURDOD GORUCHWYLIO?**

Yr awdurdod goruchwyllo fydd y corff arweiniol yng Nghymru ar ddiogelwch tomenni glo. Bydd yn goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r drefn newydd arfaethedig ac yn sicrhau cysondeb o ran cyflawni'r gyfundrefn. Byddai peidio â chyflwyno awdurdod goruchwyllo yn golygu risg sylweddol y byddai'r materion a'r anghysondebau a nodwyd yn y gyfundrefn bresennol yn parhau.

Roedd mwy na 90% o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith yn cefnogi'r angen am awdurdod goruchwyllo i sicrhau cysondeb o ran cyflawni a chydymffurfio â chyfundrefn reoli newydd.

Bydd y corff hwn yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o reoli tomenni glo nas defnyddir, ac rydym yn cynnig y bydd yn arwain ar reoli'r tomenni statws uchaf – o dan y categorïau newydd bydd y rhain yn domenni categori 1.

## **PAM MAE ANGEN COFRESTR ASEDAU?**

Ar hyn o bryd nid oes cofrestr ganolog o domenni sborion nas defnyddir yng Nghymru nac unrhyw le yn y DU. Mae hyn yn golygu nad oes cofnod o leoliad tomenni, eu cyflwr na'u perchnogaeth. I ddechrau, ystyriwyd bod 1,200 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Bellach, mae gwaith Tasglu Diogelwch y Tomenni Glo wedi nodi bron i 2,500 o domenni yng Nghymru.

Mae angen data cyfredol, cydlynol a dibynadwy ar gyfer cyfundrefn reoli newydd a bydd cofrestr asedau yn helpu i wneud hyn.

Bydd y gofrestr hon hefyd yn caniatáu i'r awdurdod goruchwyllo gael yr wybodaeth sydd ei hangen arno i gyflawni ei rôl oruchwyllo er mwyn sicrhau bod tomenni'n cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw.

Rydym yn cynnig y dylai'r gofrestr asedau gynnwys gwybodaeth benodol (gofynion sylfaenol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys) ac y caiff hyn ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth. Gan fod y cynnwys yn dechnegol, efallai y bydd angen diweddarau'r cynnwys ar adegau penodol (os ychwanegir tomenni sborion eraill at y gofrestr) a gellir gwneud hyn yn fwy effeithiol drwy is-ddeddfwriaeth.

## **PWY FYDD YN CAEL GWELD Y GOFRESTR ASEDAU?**

Bydd y cyhoedd yn cael gweld yr haen gyhoeddus hygyrch o'r gofrestr asedau. Rydym yn cynnig bod hyn yn cynnwys gwybodaeth am: a) Enw/cod adnabod tomen; b) lleoliad; c) categori; a d) Amserlen archwilio.

Bydd yr awdurdod goruchwyllo yn cael gweld pob haen o'r gofrestr asedau, gan gynnwys gwybodaeth gyhoeddus a chyfrinachol.

Bydd yr awdurdodau lleol yn cael gweld gwybodaeth am domenni yn eu hardaloedd gweinyddol eu hunain.

Bydd perchnogion yn cael gweld gwybodaeth am eu tomenni eu hunain.

## **BETH YW'R GOFRESTR O WEITHWYR PROFFESIYNOL?**

Ni fydd hwn yn banel ffurfiol ond bydd yn darparu gwybodaeth sydd wrth law am arbenigwyr sy'n gallu darparu cyngor, cymorth a gwybodaeth y mae mawr eu hangen ynghylch diogelwch tomenni glo, ac sy'n gymwys i wneud gwaith ar domenni glo nas defnyddir.

Bydd y Gofrestr o Weithwyr Proffesiynol yn cael ei goruchwyllo gan yr Awdurdod Goruchwyllo. Bydd yn sicrhau bod ystod eang o weithwyr proffesiynol cymwys sydd â sbectwm eang o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael â diogelwch tomenni glo.

## **BETH YW ASESAD PERYGLON?**

Nid yw pob tomen yr un fath. Mae nifer o wahaniaethau rhyngddynt, megis maint, lleoliad, cyfansoddiad cynnwys, hanes cynnal a chadw, ac o'r herwydd nid yw'r peryglon y gallant eu hachosi yr un fath. Yn sgil nifer y tomenni yng Nghymru (bron i

2,500) mae angen i'r gyfundrefn fod yn gymesur gan na fydd pob tomen angen yr un lefel o archwilio neu reoli, am nad ydynt yn achosi peryglon lluosog neu sylweddol.

Er mwyn helpu i flaenoriaethu'r gyfundrefn a'i dylunio yn unol â hynny, bydd asesiad peryglon yn helpu i nodi'r peryglon penodol ar domen megis: a) Symudiad/ansefydlogrwydd tir; b) Llifogydd; c) Llygredd; d) Ymlosgiad.

Bydd yn ystyried yr effeithiau posibl ar gymunedau, seilwaith hanfodol, a'r amgylchedd.

Bydd asesiad peryglon yn cael ei gynnal ar gyfer pob tomen a bydd yn helpu i benderfynu ar ei chategori.

Er mwyn helpu i flaenoriaethu asesiadau peryglon, rydym yn cynnig y defnyddir y categorïau interim – bydd tomenni gyda chategori interim o C a D yn cael eu hasesu yn gyntaf (o fewn 12 mis i'r domen yn cael ei hychwanegu at y gofrestr asedau) ac yna'r tomenni gyda chategori interim A a B (o fewn 36 mis i'r domen yn cael ei hychwanegu at y gofrestr asedau).

## **PAM MAE ANGEN CATEGORÏAU NEWYDD?**

Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio categorïau interim i'n helpu i nodi'r tomenni hynny sydd angen archwiliadau amlach. Roedd angen y categorïau hyn i'n helpu i flaenoriaethu camau gweithredu nid yn unig ar gyfer archwiliadau ond hefyd ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

Roedd y categorïau interim hyn (A i D), sef A y categori isaf a D y categori uchaf, yn darparu cysondeb angenrheidiol ar gyfer ein gwaith casglu data ynghylch tomenni glo. Fodd bynnag, nid yw'r dull yn seiliedig ar asesiad peryglon, ac nid yw'n addas ar gyfer dull cadarn o gategoreiddio sy'n diogelu at y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig categorïau newydd sy'n seiliedig ar ganlyniad yr asesiad newydd o beryglon.

Bydd y categorïau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, ac o'r herwydd rydym wedi symud o ddefnyddio llythrennau i rifau i sicrhau cysondeb yn Gymraeg a Saesneg.

## **BETH YW CLWSTWR O DOMENNI?**

Yn aml, mae tomenni wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd. Mae rhai tomenni mor gysylltiedig fel y gall yr hyn sy'n digwydd ar un domen effeithio ar un arall. Er enghraifft, gall un domen fod wedi'i lleoli uwchben tomen arall, a phe bai rhywbeth yn digwydd ar y naill domen neu'r llall gallai gael effaith sylweddol ar y domen arall. Rydym yn galw'r tomenni hyn yn domenni 'rhyngddibynnol'. Yn y Papur Gwyn,

rydym yn cynnig y dylid rheoli'r mathau hyn o glystyrau gyda'i gilydd, felly dylent gael un cynllun rheoli.

Mae tomenni eraill wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd ond os bydd rhywbeth yn digwydd ar un ni fydd yn cael effaith ar y lleill. Rydym yn galw'r rhain yn domenni 'cyfagos'. Yn y Papur Gwyn, rydym yn cynnig y gallai'r awdurdod goruchwyllo ystyried y dylid eu rheoli ar y cyd, oherwydd y byddai hyn yn sicrhau effeithlonrwydd gweithredol.

## **BETH SYDD WEDI'I GYNNWYS MEWN CYNLLUNIAU RHEOLI?**

Bydd yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn cynllun rheoli yn cael ei bennu yn ôl categori a chanlyniadau'r asesiad peryglon. Yn sgil y gwahaniaethau o ran tomenni, dylai'r cynllun rheoli fod yn gymesur â'r peryglon a gyflwynir gan y domen.

Bydd angen cynllun manylach ar domenni statws uwch (sef y rhai sy'n dod o dan gategoriâu 1 a 2). Rydym yn cynnig y dylai'r cynlluniau hyn gynnwys: a) amserlen archwiliadau ac arfarniadau; b) a allai fod angen archwiliadau arbenigol ar y domen i asesu ecoleg y domen neu ei draeniad; c) rhaglen waith cynnal a chadw ragweithiol; d) manylion ynghylch y domen megis a yw mewn safle dynodedig, yn agos at afonydd.

Dim ond cynllun safonol sy'n cynnwys pethau megis amserlen archwiliadau ac arfarniadau a gofynion cynnal a chadw cyffredinol fydd ei angen ar domenni statws is (sef y rhai sy'n dod o dan gategoriâu 3 a 4).

## **PA MOR AML FYDD TOMENNI'N CAEL EU HARCHWILIO?**

Yn sgil nifer y tomenni nas defnyddir yng Nghymru, rydym wedi cynnig dull cymesur o gynnal gwiriadau ar domenni. Rydym wedi ystyried bod llawer o'r tomenni hyn ar dir preifat.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig dull dwy haen:

- Archwiliadau – archwiliad llai technegol sy'n cynnwys llenwi ffurflen safonol a gellir ei chwblhau fel hunanasesiad; ac
- Arfarniadau – arfarniad technegol manwl a chynhwysfawr, sy'n cynnwys archwilio safle.

Mae amllder yr archwiliadau ac arfarniadau yn cael ei bennu yn ôl categori tomen. Er enghraifft, bydd angen archwiliad bob 6 mis ar y tomenni statws uchaf (categori 1) ac arfarniad bob 12 mis. Bydd angen archwiliad bob 24 mis ar y tomenni statws isaf (categori 4), ac nid oes angen arfarniad oni bai bod canfyddiadau mewn archwiliad yn ei sbarduno, neu os oes newid sylweddol i'r domen.

## **PWY SY’N GYFRIFOL AM ARCHWILIADAU/ARFARNIADAU?**

Yn y Papur Gwyn rydym yn cynnig y canlynol:

Categori 1 – yr awdurdod goruchwyllo i arwain;

Categori 2 – yr awdurdod lleol i arwain ar gyfer eu tomenni eu hunain a'r rhai ar dir preifat;

Categoriâu 3 a 4 – y perchnogion

## **A FYDD YN OFYNNOL I BERCHNOGION GYNNAL A CHADW EU TOMENNI?**

Bydd gofynion i sicrhau bod tomenni'n cael eu cynnal a'u cadw. Rydym yn cynnig bod y partiön canlynol yn arwain ar wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer tomenni:

Categori 1 – yr awdurdod goruchwyllo i arwain;

Categori 2 – yr awdurdod lleol i arwain ar eu tomenni eu hunain a'r rhai ar dir preifat;

Categoriâu 3 a 4 – y perchnogion

Gall yr awdurdod goruchwyllo drefnu cytundebau cynnal a chadw gyda pherchnogion tomenni, yn enwedig ar gyfer y tomenni statws is (categoriâu 3 a 4).

Nid oes angen i'r partiön hyn wneud y gwaith cynnal a chadw ond gallant drefnu i drydydd parti wneud y gwaith.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd yr awdurdod goruchwyllo yn penderfynu y gallai fod angen iddo wneud y gwaith, os ystyrir ei fod yn angenrheidiol neu'n gyfleus. Yn yr achos hwn, gall yr awdurdod goruchwyllo ystyried codi tâl ar y perchnogion ar gyfer y costau.

## **BETH YW CYTUNDEB GYNNAL A CHADW?**

Mae cytundeb cynnal a chadw yn darparu dull rhagweithiol o atal problemau diogelwch tomenni rhag datblygu, ac i berchnogion tomenni ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran helpu i sicrhau diogelwch tomen lo.

Bydd yn dibynnu ar anghenion y domen benodol ond gall gynnwys gofynion cynnal a chadw cyffredinol, megis dyletswyddau i wirio systemau draenio ar gyfnodau penodol ac ar ôl glaw trwm, gwaith cynnal a chadw a gwella systemau draenio, neu osod a gwirio offer monitro.

Gallent hefyd bennu'r gwaith adweirio sydd ei angen a darparu amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Gan ddibynnu ar gymhlethdod y gwaith, gallai'r cytundeb nodi bod



yn rhaid i'r gwaith gael ei wneud gan weithiwr proffesiynol sydd â chymwysterau addas.

Gallai peidio â chydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw tomen arwain at yr awdurdod goruchwyllo yn rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomen.

## **BETH YW GORCHYMYN CYNNAL A CHADW TOMEN?**

Mae gorchymyn tomen yn ei gwneud yn ofynnol i barti wneud y gwaith sydd ei angen yn y cytundeb cynnal a chadw. Byddai methu â chydymffurfio heb esgus rhesymol, â gorchymyn tomen yn drosedd ddiannod sydd â chosb o garchar am gyfnod heb fod yn fwy na 51 wythnos, neu ddirwy, neu'r ddau.

Rydym yn cynnig y dylid rhoi gorchymyn tomen pan fo:

- perchennog neu feddiannydd wedi methu â chydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw, a lle bo hysbysiad priodol wedi cael ei roi,
- cytundeb wedi'i gynnig i'r perchennog neu'r meddiannydd ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod;
- gwaith a bennir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys; neu
- ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog neu'r meddiannydd er bod camau penodol wedi'u cymryd i geisio canfod hynny

## **BETH YW'R MESURAU GORFODI?**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys nifer o gynigion sy'n ymwneud â hawliau mynediad, cosbau troseddol a sifil a hawliau i apelio.

### Hawliau Mynediad

Ar hyn o bryd, mae'r pwerau mynediad er mwyn i awdurdodau lleol benderfynu ar ddiogelwch tomen wedi bod yn gyfyngedig. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig pŵer mynediad i'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau lleol (mewn perthynas â thomenni categori 2) ar gyfer:

- a) archwilio, cynnal profion neu samplu ar domen lo hysbys neu a amheuir;
- b) gwneud, goruchwyllo neu archwilio gwaith cynnal a chadw neu waith adweirio neu osod a monitro offer ar domen lo;
- c) cael mynediad i domen lo at y dibenion uchod

Mewn sefyllfa sy'n argyfwng, rydym yn cynnig y bydd y pŵer mynediad heb rybudd.

## Troseddol

Mynediad: Rydym yn cynnig y bydd rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith yn drosedd ddiannod.

Gorchymyn Tomen: Byddai methu â chydymffurfio, heb esgus rhesymol, â gorchymyn tomen yn drosedd ddiannod sydd â chosb o garchar am gyfnod heb fod yn fwy na 51 wythnos, neu ddirwy, neu'r ddau.

## Sanctiynau Sifil

Rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai sanctiynau sifil fod ar gael i'r awdurdod goruchwylio ac awdurdodau lleol am beidio â chydymffurfio â gweithgareddau penodol. Er enghraifft, i'r awdurdod goruchwylio gael pwerau i roi cosb ariannol benodedig os oes methiant parhaus i ddarparu'r cofnodion diweddaraf o ran archwiliadau, arfarniadau neu waith cynnal a chadw.

## Apeliadau

Rydym yn cynnig y dylai apeliadau fod ar gael ar gyfer y canlynol:

- dylai fod gan berchennog neu feddiannydd hawl i apelio yn erbyn cofrestru ar y gofrestr asedau lle nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir;
- dylai'r perchennog neu feddiannydd gael hawl i apelio yn erbyn gosod gorchymyn cynnal a chadw;
- dylai fod gan berchennog neu feddiannydd hawl i apelio yn erbyn codi unrhyw dâl am y gwaith o dan orchymyn cynnal a chadw, lle ceir anghytundeb ynghylch y gost.

## **BETH YW ADRODDIAD COMISIWN Y GYFRAITH?**

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ganfyddiadau ei adolygiad o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo a'i argymhellion ar gyfer cyfundrefn newydd. Roedd yr adolygiad mewn ymateb i Weinidogion Cymru yn gwahodd Comisiwn y Gyfraith, ym mis Tachwedd 2020, i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer diogelwch tomenni glo.

Mae'r adroddiad yn dilyn papur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith '*Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*', yr ymgynghorwyd arno yn ystod haf 2021.

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith yr adroddiad (yn ddwyieithog) ar 24 Mawrth, a gosododd Gweinidogion Cymru yr adroddiad gerbron y Senedd ar yr un diwrnod.

Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn cyflwyno 36 o argymhellion, sy'n cynnwys:

- Sefydlu awdurdod goruchwylio newydd (corff cyhoeddus canolog), sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomenni glo;
- Yr awdurdod goruchwylio i ddatblygu cofrestr asedau genedlaethol;

- Dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i drefnu archwiliad o'r tomenni ar y gofrestr;
- Yr awdurdod goruchwyllo o dan ddyletswydd i drefnu asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer tomenni ar y gofrestr;
- Dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gyfrifol am y pŵer i wneud cytundebau tomenni ac i wneud gorchmynion tomenni ar gyfer tomenni risg is, a dylai dyletswydd i oruchwyllo'r cytundebau a'r gorchmynion, gan gynnwys cynnal archwiliadau, fod yn gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol;
- Cyflwyno hawliau mynediad cryfach i dir preifat;

## **A YW'R YMGYNGHORIAD HWN YN CYTUNO Â'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD COMISIWN Y GYFRAITH?**

Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn cyd-fynd yn gyffredinol â'n cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, yn ogystal ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, rydym wedi ystyried, yn fanylach, y gofynion technegol ar gyfer y gyfundrefn, yn enwedig mewn perthynas â system gategoreiddio newydd a'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesiadau o domenni.

## BETH MAE LLYWODRAETH CYMRU WEDI BOD YN EI WNEUD GYDA THOMENNI GLO HYD YMA?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael ag olion canrifoedd o gloddio ac i sicrhau bod tomenni glo yn ddiogel, gan gryfhau pwerau'r awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu diogelu. Mae hyn yn rhan o becyn o gamau sy'n cyd-fynd â'r rhaglen waith diogelwch tomenni glo a ddatblygwyd yn 2020 i gyflawni amcanion Tasglu'r Prif Weinidog.

Rydym wedi mynd ati ar unwaith i fynd i'r afael â diogelwch tomenni glo. Nid yn unig yr ydym wedi sicrhau bod y tomenni categori uwch yn cael eu harchwilio, ond rydym hefyd wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol wneud gwaith cynnal a chadw.

Yn ogystal â hynny, mae technolegau newydd yn cael eu treialu ar domenni, a fydd yn rhoi gwybodaeth am y dull mwyaf priodol o fonitro symudiadau tir a dŵr ar y tomenni categori uwch.

Gwnaethom wahodd Comisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth tomenni glo a byddwn yn defnyddio'r adroddiad hwn, ynghyd â'r ymgynghoriad hwn, i ddatblygu fframwaith statudol newydd ar gyfer tomenni glo. Caiff y ddeddfwriaeth newydd hon ei chyflwyno yn ystod y Senedd hon.

## FAINT O DOMENNI GLO NAS DEFNYDDIR SYDD YNA A BETH YW EU CATEGORÏAU?

Mae'r Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol wedi gweithio i gasglu data ar domenni glo nas defnyddir a hyd yma maent wedi nodi 2,456 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru.

Rydym wedi cyhoeddi dadansoddiad o'r tomenni hyn yn ôl categori ac awdurdod lleol ar y safle canlynol: [Diogelwch tomenni glo | LLYW.CYMRU](#)

Er bod ein dealltwriaeth o'r darlun cyffredinol wedi gwella'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r data hyn yn fyw ac mae'n dal i newid wrth i waith sicrhau ansawdd pellach gael ei wneud ac i fwy o domenni gael eu nodi.

## PRYD FYDDWCH CHI'N NODI LLEOLIAD TOMENNI?

Rydym wedi ymrwymo i nodi lleoliad tomenni nas defnyddir ledled Cymru ac rydym yn gweithio'n galed i gyrraedd sefyllfa lle mae'r wybodaeth honno mor gywir â phosibl er mwyn gallu rhyddhau'r data hyn.

Mae'r gwaith hwn yn brosiect byw i raddau helaeth, ac rydym yn disgwyl addasiadau pellach o ran cyfanswm y tomenni wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyhoeddi lleoliadau tomenni cyn gynted â phosibl, a chyn gynted ag y bydd yn gyfrifol i wneud hynny. Rhaid inni fod yn hyderus yn y data cyn inni wneud hynny.

Mae gwybodaeth am leoliadau tomenni eisoes wedi'i rhannu ag awdurdodau lleol a fforymau lleol Cymru gydnerth i helpu i ddatblygu cynlluniau parodrwydd ar gyfer argyfwng lle bo angen.

Cyn darparu mynediad cyhoeddus i'r data o ran lleoliadau tomenni categori uwch, mae'n hanfodol bod yr wybodaeth pan gaiff ei chyhoeddi yn gywir ac mor gyflawn â phosibl.

## **BETH YW'R TREIALON TECHNOLEG?**

Nod y treialon technoleg yw ymchwilio a threialu ystod eang o dechnolegau i bennu eu haddasrwydd ar gyfer cyfrannu at fonitro tomenni nas defnyddir yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd canlyniadau'r treial yn llywio strategaeth technoleg a monitro hirdymor y gyfundrefn yn y dyfodol.

Gall yr wybodaeth a ddarperir gan y technolegau gwahanol roi gwybod i awdurdodau lleol am symudiadau tir posibl, ac ar sail hynny gallant sbarduno archwiliad.

Disgwylir i nifer o'r treialon bara am gyfnod o flynyddoedd. Felly, mae'n debygol na fydd casgliadau'r rhaglen yn cael eu gwneud yn derfynol tan 2023 neu 2024.

Mae bron i 70 o domenni categori uwch wedi'u cynnwys yn y rhaglen treialon technoleg. Bydd yr adolygiad cyntaf o'r rhaglen yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn 2022. Bydd adolygiadau cyfnodol yn cael eu trefnu yn ystod 2022 a 2023.

Mae rhai o'r technolegau'n sensitif iawn, er enghraifft gall mesuryddion gogwydd ddarparu darlenniadau ffug os cânt eu symud gan rymoedd allanol fel defaid.

## **SUT MAE'R GWAITH PRESENNOL AR DOMENNI GLO YN CAEL EI ARIANNU?**

Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i wneud gwaith cynnal a chadw ar eu tomenni eu hunain ac ar domenni preifat. Rydym bellach wedi ymrwymo £44.4 miliwn o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf i gefnogi awdurdodau lleol i barhau â'r rhaglen waith cynnal a chadw hon.

## **A YDYCH YN CYNNIG CAEL GWARED AR YR HOLL DOMENNI GLO NAS DEFNYDDIR?**

Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gyflwyno cyfundrefn reoli newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir.

Nid ydym yn cynnig cael gwared ar yr holl domenni glo nas defnyddir. Ond byddwn yn edrych ar ba gyfleoedd a allai fod ar gyfer adfer ac adweirio llawer o domenni, megis ardaloedd ar gyfer plannu coed, helpu i wella bioamrywiaeth, hamdden ac ati.

Yn y dyfodol byddwn yn mynd ati ymgysylltu â chymunedau i drafod y cyfleoedd hyn.